# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD A MÔN

## DATGANIAD MABWYSIADU

**28 GORFFENNAF 2017**

**(CYNGOR GWYNEDD)**

**31 GORFFENNAF 2017**

**(CYNGOR SIR YNYS MÔN)**

**CYNNWYS**


| | Tudalen |
|---|---|
| **1. Cefndir** | **2** |
| **2. Rhan 1: Datganiad Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd** | **2** |
| **3. Rhan 2: Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004** | **3** |
| Cefndir | **3** |
| Sut mae'r ystyriaethau amgylcheddol wedi eu hintegreiddio yn y Cynllun Datblygu Lleol | **4** |
| Sut y rhoddwyd cyfrif am yr Adroddiad Amgylcheddol (Adroddiad AC/AAS) | **5** |
| Sut y rhoddwyd cyfrif am y sylwadau a ddaeth i law trwy'r ymgynghoriadau | **8** |
| Sut y rhoddwyd cyfrif am ganlyniadau ymgynghoriadau trawsffiniol | **9** |
| Y rhesymau dros ddewis y cynllun neu'r rhaglen a fabwysiadwyd, yng ngoleuni unrhyw dewisiadau rhesymol eraill | **10** |
| Y mesurau a gymerir i fonitro unrhyw effeithau amgylcheddol arwyddocaol yn sgil gweithredu'r cynllun | **10** |
| **4. Gwybodaeth Bellach** | **11** |

# DATGANIAD MABWYSIADU CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD A MÔN

## CEFNDIR

1. Yn unol â gofynion Rhan 25 (2) o Reoliadau Cynllunio Gwlad & Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 a Rhan 16 o Reoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, mae'n ofynnol i'r Cynghorau baratoi Datganiad Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn.

2. Mae Rhan 1 o'r Datganiad yma yn cyfarch gofynion Rheoliadau Cynllunio Gwlad & Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 ac mae Rhan 2 yn cyd-fynd gyda gofynion Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.

## RHAN 1: DATGANIAD MABWYSIADU'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

3. Cafodd Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Mon ei fabwysiadu gan Gyngor Gwynedd ar 28 Gorffennaf 2017 a gan Cyngor Sir Ynys Môn ar 31 Gorffennaf 2017. Daeth y Cynllun yn weithredol adeg ei fabwysiadu.

4. Y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ydi'r ddogfen polisi cynllunio ar gyfer Gwynedd (ac eithrio ardal Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri) ac Ynys Môn. Mae'n nodi polisïau allweddol a dynodiadau defnydd tir a fydd yn hwyluso datblygiad yn ardal y Cynllun hyd at 2026. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn disodli'r cynlluniau a'r polisiau cynllunio canlynol:

| <u>Ynys Môn</u> | <u>Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd</u> |
|---|---|
| • Cynllun Fframwaith Gwynedd (1993)<br>• Cynllun Lleol Ynys Môn (1996)<br>• Cynllun Datblygu Unedol Ynys Mon (a stopiwyd) (2005)<br>• Polisi Cynllunio Dros Dro: Safleoedd Mawr (2011)<br>• Polisi Cynllunio Dros Dro: Clystyrau Gwledig (2011) | • Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2009) |

5. Gellir gweld copïau o'r Cynllun mabwysiedig, adroddiad yr Arolygydd Cynllunio a benodwyd i gynnal yr Archwiliad annibynnol, adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd (gan ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol - AAS) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ynghyd â'r Datganiad Mabwysiadu hwn yn rhad ac am ddim yn y swyddfeydd canlynol rhwng yr oriau agor arferol o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ym mhob llyfrgell cyhoeddus yng Ngwynedd a Mon yn ystod yr oriau agor arferol:

(i) Prif Swyddfa, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni;
(ii) Canolfan Busnes Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni;
(iii) Swyddfa'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Ffordd Gwynedd, Bangor
(iv) Siop Gwynedd, Cyngor Gwynedd, Stryd y Castell, Caernarfon
(v) Siop Gwynedd, Cyngor Gwynedd, Lon y Cob, Pwllheli
(vi) Siop Gwynedd, Cyngor Gwynedd, Penarlag, Dolgellau

6. Gellir gweld y dogfennau a enwir uchod ar wefan y ddau Gyngor yn www.ynysmon.gov.uk/cdll a www.gwynedd.llyw.cymru/cdll

7. Bydd rhaid talu am gopïau caled o'r dogfennau a enwir ym mharagraff 5.

8. Caiff person a dramgwyddir gan y Cynllun sy'n dymuno cwestiynu ei ddilysrwydd ar y sail nad yw o fewn y pwerau a roddir gan Ran 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 neu os na chydymffurfiwyd gydag unrhyw ofyniad o'r Ddeddf honno neu unrhyw reoliad a wnaed o dan y Ddeddf mewn perthynas â mabwysiadu'r Cynllun, wneud cais i'r Uchel Lys o dan adran 113 o Ddeddf 2004, o fewn chwe wythnos o ddyddiad mabwysiadu'r Cynllun.

## RHAN 2: RHEOLIADAU ASESIAD AMGYLCHEDDOL O GYNLLUNIAU A RHAGLENNI (CYMRU) 2004

### Cefndir

9. Mae'r rhan yma o'r Datganiad Mabwysiadu yn disgrifio sut mae'r broses Arfarniad Cynaliadwyedd wedi dylanwadu ar ddatblygiad CDLl ar y Cyd Gwynedd a Môn, a sut mae'r ymatebion amgylcheddol a'r ymgynghori wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun. Mae hefyd yn amlinellu pam fod y CDLl ar y Cyd wedi symud ymlaen yng ngoleuni dulliau amgen rhesymol gan amlygu'r mesurau monitro a ddatblygwyd i olrhain effeithiau'r Cynllun. Mae CDLl ar y Cyd Gwynedd a Môn yn darparu fframwaith ofodol gaiff ei hatgyfnerthu gan egwyddorion datblygu cynaliadwy.

10. Gofynna deddfwriaeth gynllunio fod Cynlluniau Datblygu yn ddarostyngedig i Arfarniad Cynaliadwyedd (AC). Proses systematig yw hon a ddyluniwyd i werthuso beth yw'r effeithiau rhagweladwy cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol o gynllunio datblygu. Mae Deddfwriaeth Ewropeaidd a'r DG yn gofyn fod y Cynlluniau hefyd yn ddarostyngedig i Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) - proses sy'n ystyried effeithiau cynllunio datblygu ar yr amgylchedd. Ble fo effeithiau andwyol sylweddol yn cael eu darogan, nod yr AAS yw adnabod dulliau i osgoi neu leddfu effeithiau o'r fath. Mae canllaw y Llywodraeth yn cynghori y dylid ymgymryd â'r ddwy broses yma gyda'i gilydd ac yn gofyn bod Cynlluniau yn ddarostyngedig i AC sy'n ymgorffori AAS.

11. Gofynna'r Rheoliadau AAS fod datganiad ar gael i fynd gyda'r Cynllun cyn gynted â phosib wedi mabwysiadu. Rhaid i'r datganiad gynnwys manylion am yr isod:

- Sut ymgorfforwyd yr ystyriaethau amgylcheddol yn y Cynllun Datblygu Lleol;
- Sut y rhoddwyd cyfrif am yr Adroddiad Amgylcheddol (Adroddiad AC/AAS);

- Sut y rhoddwyd cyfrif am y sylwadau a ddaeth i law trwy'r ymgynghoriadau;
- Sut y rhoddwyd cyfrif am ganlyniadau ymgynghoriadau trawsffiniol;
- Y rhesymau dros ddewis y cynllun neu'r rhaglen a fabwysiadwyd, yng ngoleuni unrhyw dewisiadau rhesymol eraill;
- Y mesurau a gymerir i fonitro unrhyw effeithau amgylcheddol arwyddocaol yn sgil gweithredu'r cynllun.

12. Ymdrinnir â'r gofynion hyn yn eu tro isod. Dylid nodi fod swm sylweddol o wybodaeth sy'n ymwneud â'r materion hyn yn y dogfennau sy'n bodoli fel yr Adroddiadau AC, Adroddiad Ymgynghori ac Adroddiad yr Arolygydd. Yn unol â pharagraff 8.4.2.3 o Lawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol (Argraffiad 2, Awst 2015), yn hytrach na dyblygu'r deunydd yma gwneir croesgyfeiriadau priodol i ddogfennau yn y datganiad hwn.

13. Roedd y CDLl ar y Cyd hefyd yn ddarostyngedig i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) a wnaed ar y cyd â'r AC. Roedd yr Adroddiad ARhC yn asesu effaith y Cynllun mewn cyfuniad ag effeithiau cynlluniau a phrosiectau eraill ar safleoedd ecolegol Ewropeaidd. Cafodd canfyddiadau'r ARhC eu bwydo i mewn ac fe wnaethant gyfarwyddo yr AC a'r CDLl ar y Cyd. Cyflwynwyd yr ARhC hefyd gyda'r CDLl wedi'i Adneuo a'r Cynllun mabwysiedig ac adroddwyd amdano ar wahân.

**Sut mae'r ystyriaethau amgylcheddol wedi eu hintegreiddio yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**

14. Mae deddfwriaeth a chanllawiau cynllunio yn mynnu fod ystyriaethau amgylcheddol yn cael eu hymgorffori yn natbygiad polisi ar bob cam. O'r herwydd mae'r CDLl felly yn cynnwys ystod eang o bolisiau sy'n ymdrin â materion ac ystyriaethau amgylcheddol.

15. Mae CDLl ar y Cyd Gwynedd a Môn wedi bod yn amodol i Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) er mwyn ystyried effaith posib y Cynllun ar yr amgylchedd ac i wella perfformiad amgylcheddol y Cynllun. Gofynna deddfwriaeth gynllunio hefyd fod cynlluniau datblygu yn ddarostyngedig i Arfarniad Cynaliadwyedd ehangach; sy'n ymgorffori ystyriaethau cymdeithasol ac economaidd yn ychwanegol i rai amgylcheddol; ac fe ymgorfforwyd yr wybodaeth yma yn y Datganiad Mabwysiadu hwn.

16. Cynhaliwyd Arfarniad Cynaliadwyedd i gyfarwyddo pob cam o waith paratoi'r Cynllun. Mae'r Arfarniad wedi cynnwys sawl cam ac adroddiadau. Mae'r rhain yn dangos y broses adborth rhwng llunio'r cynllun a'r arfarniad o gynaliadwyedd, gan ganiatáu i ystyriaethau cynaliadwyedd gael eu hintegreiddio yn y CDLl ar y Cyd.

17. Dilynwyd camau isod yr AC wrth baratoi ar gyfer y CDLl ar y Cyd.

| Cam Cynllun | Cam AC/AAS | Allbwn AC |
|---|---|---|
| Adolygu Sail y Dystiolaeth<br>Galw am Safleoedd | Adroddiad Cwmpasu AC | • Adroddiad Cwmpasu AC |

| Cam Cynllun | Cam AC/AAS | Allbwn AC |
|---|---|---|
| Ymgeisiol | | |
| Cam cyn-adneuo (Strategaeth a Ffefrir) | AC o'r Weledigaeth a'r Amcanion<br>Safleoedd Ymgeisiol<br>Opsiynau Strategol<br>Polisïau Strategol | • Adroddiad AC Cychwynnol<br>• Crynodeb Annhechnegol yr Adroddiad AC Cychwynnol |
| Cam Adneuo | AC y Cynllun Adneuo | • Adroddiad AC y Cynllun Adneuo<br>• Crynodeb Annhechengol yr Adroddiad AC |
| Newidiadau Ffocws | AC o'r Newidiadau Ffocws | • AC Adroddiad Adendwm |
| Archwilio - Newidiadau Materion sy'n Codi (NMC) - atodlen gyntaf | AC o Newidiadau Materion sy'n Codi | • AC Adroddiad Adendwm |
| Archwilio - NMC ychwanegol posib, atodlen derfynol o NMC ac Argymhellion yr Arolygydd | AC Sgrinio NMC ychwanegol posib, atodlen derfynol o NMC ac Argymhellion yr Arolygydd | • Adroddiad AC Terfynol |
| Mabwysiadu | AC Terfynol y Cynllun | • Adroddiad AC Terfynol<br>• Crynodeb Annhechnegol |

**Sut y rhoddwyd cyfrif am yr Adroddiad Amgylcheddol (Adroddiad AC/AAS)**

18. Datblygwyd yr Adroddiad AC a'r CDLl ar y Cyd ochr yn ochr, gyda phob cam o'r AC yn cyfarwyddo ac yn dylanwadau ar gynnydd y Cynllun. Mae'r rhannau isod yn crynhoi sut mae'r materion a nodwyd yn ystod camau allweddol yr AC wedi cyfarwyddo a dylanwadu ar y CDLl ar y Cyd.

- **Cwmpasu AC**

19. Yn 2011, aed ati i gynnal proses gwmpasu yr AC i sicrhau ei fod yn mynd i'r afael gyda'r materion cynaliadwyedd allweddol sy'n berthnasol i Ardal y Cynllun. Cafodd cynlluniau a rhaglenni perthnasol hefyd eu hadolygu ac o'r dadansoddiad hwnnw fe nodwyd problemau, materion a chyfleoedd cynaliadwyedd allweddol. Allbwn allweddol yr Adroddiad Cwmpasu AC oedd datblygiad fframwaith arfarniad o amcanion arfaethedig i adnabod, disgrifio a gwerthuso effeithiau amgylcheddol cadarnhaol a negyddol y Cynllun. Roedd Adroddiad Cwmpasu AC yn amodol i ymgynghoriad yng Ngorffennaf 2011. Cafodd tabl yn arfarnu'r ymatebion a

dderbyniwyd i ymgynghoriad yr adroddiad Cwmpasu AC ei gynnwys fel atodiad i'r Adroddiad AC cychwynnol (ISAR) a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori ym Mai 2013 ynghyd â'r dogfennau Hoff Strategaeth cyn-adneuo.

- **AC Asesiad o'r Safleoedd Posib**

20. Er mwyn canfod pa dir sydd ar gael i gwrdd ag anghenion datblygu Gwynedd ac Ynys Môn, ym mis Hydref 2011 agorwyd Cofrestr Safleoedd Posib (CSP) yn ffurfiol, a gwahoddwyd rhanddeiliaid, tirfeddianwyr a phartïon eraill oedd â diddordeb i gyflwyno gwybodaeth am dir y dylid ystyried ei gynnwys yn y CDLl ar y Cyd. Cafodd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i asesu'r safleoedd ymgeisiol hefyd ei hadolygu mewn perthynas â fframwaith amcanion AC i sicrhau cysondeb gyda'r AC. Fe wnaeth yr ymarfer hidlo cychwynnol o'r safleoedd ymgeisiol yn erbyn y fethodoleg hepgor y safleoedd hynny a fethodd y meini prawf cyflwyno h.y. safleoedd y nodwyd eu bod yn hollol afrealistig i'w datblygu, oedd ddim yn cydymffurfio â pholisi rhyngwladol, cenedlaethol na lleol neu safleoedd a chanddynt gyfyngiadau sylfaenol na ellir eu goresgyn na'u lliniaru. O ganlyniad, tynnwyd 243 o'r broses asesu. Roedd yr holl opsiynau rhesymol a nodwyd drwy Broses Safle Posib y Cyngor a'r Fethodoleg yn amodol i'r AC a darparwyd y canfyddiadau cryno ym Mhennod 4 ac Atodiad 7 o'r Adroddiad AC (Dogfen CDLL.007 yn Llyfrgell yr Archwiliad).

- **AC Cam cyn-adneuo (Hoff Strategaeth)**

21. Cyflwynwyd yr Adroddiad AC Cychwynnol (ISAR) (2013) gyda'r Hoff Strategaeth i'r ymgynghoriad cyhoeddus ym Mai/Mehefin 2013. Roedd yr ISAR yn cynnwys asesiad o'r opsiynau gofodol a thwf, gweledigaeth, amcanion y strategaeth a'r polisiau strategol sy'n defnyddio Fframwaith AC a ddyfeisiwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu. Ble cafodd effeithiau negyddol tebygol sylweddol eu hadnabod, fe wnaed argymhellion ar gyferau mesurau lliniaru.

22. Yn gyffredinol, dangosodd yr AC mai dosbarthiad cymesur i ardaloedd trefol a gwledig oedd y dewis mwyaf cynaliadwy, oedd yn sgorio orau yn erbyn mwyafrif yr amcanion cynaliadwyedd. Mae dosbarthiad cymesur datblygiadau drwy ardal y Cynllun yn mynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol-economaidd y boblogaeth drefol yn ogystal â'r boblogaeth wledig, tra ar yr un pryd ostwng unrhyw effaith posib ar yr amgylchedd o ddatblygiad gwasgaredig.

23. Arweiniodd asesiad o'r pedwar opsiwn twf at ddatblygiad opsiwn twf amgen/hybrid. Ystyriwyd fod yr opsiwn twf canolig yma yn fwy realistig ac yn fwy tebygol o gael ei gyflawni. Mae yn darparu ar gyfer ac yn hwyluso twf lleol, ynghyd â thwf net mewn swyddi neu gynnydd cysylltiedig mewn galw am dai a gwasanaethau.

24. Daeth AC o weledigaeth ac amcanion y Cynllun i'r casgliad cyffredinol, fod mwyafrif Amcanion AC un ai'n gydnaws ag Amcanion y Cynllun, neu nad oes unrhyw berthynas rhyngddynt. Dim ond nifer fechan o amcanion a welwyd sydd efallai yn anghydnaws â'i gilydd. Gwnaed mân newidiadau i'r weledigaeth a'r amcanion i wella eu

perfformiad cynaliadwyedd. Arweiniodd asesiad o'r polisïau strategol hefyd at fân newidiadau i wella eu perfformiad cynaliadwyedd. Gellir gweld rhain ym mhennod 5 o'r Adroddiad AC terfynol (cyf. dogfen: CDLL.007 Llyfrgell yr Archwiliad).

- **AC Cam Adneuo**

25. Aeth yr Adroddiad AC (Chwefror 2015) â'r Chynllun Adneuo CDLl i ymgynghoriad cyhoeddus o'r 16 Chwefror i'r 31 Mawrth 2015. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r Adroddiad AC a sut maent wedi eu trin, wedi eu cyflwyno yn Atodiad 1 o'r Adroddiad AC Terfynol. O ganlyniad i'r ymatebion a dderbyniwyd ar y CDLl ar y Cyd a Adneuwyd, fe wnaeth y Cyngor nifer o newidiadau i'r Cynllun i baratoi i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Cyfeirir at y newidiadau hyn yn Newidiadau Ffocws. Roedd hi'n bwysig fod y newidiadau hyn yn cael eu sgrinio i benderfynu a ydynt yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau gwaith yr AC blaenorol a gyflwynwyd yn Adroddiad AC Chwefror 2015.

26. Mae'r Newidiadau Ffocws arfaethedig i'r CDLl ers y cam Adneuo wedi cael eu sgrinio i weld pan mor arwyddocaol ydynt o ran y gwaith AG, ac fe'i cyflwynwyd yn Atodiad 9 o'r Adroddiad AC. Darganfu'r sgriniad mai mân newidiadau oedd mwyafrif y newidiadau ac nid oedddynt yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau gwaith yr AG blaenorol gan eu bod yn ceisio darparu mwy o eglurhad neu sicrhau cysondeb. Cyhoeddwyd Adroddiad Adendwm pellach yng Ngorffennaf 2016 a ystyriodd y newidiadau arfaethedig i'r CDLl ar y Cyd ar ôl ystyried ymatebion i'r Newidiadau Ffocws ynghyd â gwaith pellach mewn perthynas ag opsiynau safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, datblygiad ynni adnewyddadwy, ac ymateb i faterion a godwyd gan yr Arolygydd. (DA021 yn Llyfrgell yr Archwiliad).

- **AC o Newidiadau Materion sy'n Codi**

27. Yn ystod y broses Archwilio, cynigiwyd nifer o newidiadau i'r CDLl ar y Cyd mewn ymateb i'r pwyntiau gweithredu a gododd o'r drafodaeth yn Sesiynau'r Gwrandawiad a gynhaliwyd rhwng mis Medi a Thachwedd 2016. Roedd y Newidiadau Materion sy'n Codi (NMC) yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod Ionawr - Mawrth 2017. Roedd yr NMC yma yn destun sgrinio AC (gweler cyfeirnod dogfen DA.041 yn Llyfrgell yr Archwiliad). Ar ôl ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, cafodd NMC pellach eu hawgrymu i'r Cynllun. Roedd yr holl NMC pellach posib yma yn amodol i sgrinio AC (gweler Atodiad 1 i'r 'Sylwadau ar gyflwyniadau am Newidiadau Materion yn Codi' DA.045 - Llyfrgell yr Archwiliad). Cynhaliwyd dau Sesiwn Gwrandawiad ychwanegol yn Ebrill 2017 i ystyried y gwrthwynebiadau i'r NMC. Yn dilyn y Gwrandawiadau cyhoeddodd y Cynghorau yr atodlen defynol o NMC (cyfeirnod dogfen DA.047b a DA.047c).

28. Daethpwyd i'r casgliad nad oedd y NMC a gynhwyswyd yn yr atodlen derfynol o newidiadau yn effeithio yn arwyddocaol ar ganfyddiadau gwaith y AC blaenorol gan eu bod yn ceisio rhoi mwy o eglurhad, neu sicrhau cysondeb a chywirdeb, ynghyd â

chydymffurfiad â lefel uwch o ganllawiau a datganiadau polisi cynllunio (cenedlaethol). Mae'r canfyddiadau a nodir yn Atodiad 10 o'r adroddiad AC terfynol.

- **Adroddiad AC Terfynol**

29. AC y Cynllun Mabwysiedig yw cam terfynol y broses. Felly, mae'r gwaith o integreiddio ystyriaethau amgylcheddol yn y CDLl wedi ei wneud yn raddol ac yn ailadroddol fel mae'r Cynllun wedi datblygu. Argymhellodd yr Arolygydd yn ei adroddiad dyddiedig 30 Mehefin 2017 newid ychwanegol y cyfeiriwyd atynt fel Newidiadau'r Arolygydd (INMC). Mae hwn wedi bod yn destun i sgrinio AC a gwelwyd nad oedd yn effeithio yn sylweddol ar ganfyddiadau'r gwaith AC blaenorol gan mai mân newid ydyw. Dywed Adroddiad yr Arolygydd: *“mae’r Cynllun wedi bod yn destun AC gan gynnwys AAS. Mae newidiadau ychwanegol a gynigiwyd gan y Cynghorau yn rhan o’r broses Archwilio wedi cael eu profi yn yr un modd, lle y bo’r angen, am unrhyw effaith ar yr AC a’r AAS”.*

30. Ymhellach, dywed yr Arolygydd *"yn unol â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd, mae ARhC o'r Cynllun wedi ei gynnal"* a'i bod yn *“fodlon bod canlyniadau’r Sgrinio HRA yn dangos na fydd gweithredu’r Cynllun yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar gyfanrwydd y safleoedd Ewropeaidd o fewn ardal y Cynllun neu ardaloedd cyfagos (naill ai ar ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill)”.* Mae copi o'r Adroddiad ARhC terfynol ar gael ochr yn ochr â CDLl ar y Cyd Gwynedd a Môn ac Adroddiad yr Arolygydd ar wefan y Cynghorau, a gellir ei weld yn swyddfeydd y Cynghorau ac mewn llyfrgelloedd cyhoeddus yng Ngwynedd a Môn.

31. Mae'r Adroddiad AC hefyd ar gael yn yr un lleoliadau.

**Sut y rhoddwyd cyfrif am y sylwadau a ddaeth i law trwy'r ymgynghoriadau**

32. Mae ymgynghori yn elfen allweddol o'r broses AC, ac fe ymgynghorwyd ar gyfer AC y CDLl ar y Cyd yn unol ag Erthygl 6 o Gyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC, Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004, a Chynllun Cynnwys Cymunedau (CCC) y Cyngor. Ar gyfer AC/AAS mae gofyn statudol i ymgynghori gyda awdurdodau efo cyfrifoldebau amgylcheddol, sef Cyfoeth Naturiol Cymru a CADW. Yn ychwanegol, dylid hefyd ymgynghori gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb.

33. Ymgynghorwyd gyda'r amrediad llawn o randdeiliaid yn ystod y camau allweddol a ganlyn o'r broses AC:

- **Adroddiad Cwmpasu AC (2011)** - paratowyd yr Adroddiad Cwmpasu AC mewn ymgynghoriad gyda grŵp tasg mewnol i ddarparu mewnbwn arbenigol i AC yr CDLl ar y Cyd. Roedd y grŵp tasg yn cynnwys nifer o swyddogion o wahanol adrannau o’r ddau Gyngor. Dewiswyd bob swyddog i ddarparu mewnbwn i amryfal agweddau o'r broses AC/AAS yn dibynnu ar eu maes arbenigol.

Ymgynghorwyd ar yr Adroddiad Cwmpasu am saith wythnos ar 21 Gorffennaf 2011. Ystyriwyd yr ymatebion ac fe wnaed addasiadau yn unol â hynny.

- **AC o'r Hoff Strategaeth (2013)** - Cyflwynwyd Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol gyda Hoff Strategaeth y CDLl ar y cyd am saith wythnos ym Mai 2013. Cafodd y cyflwyniadau a dderbyniwyd eu hystyried yn ystod y cam nesaf o'r AC a chofnodwyd yr ymatebion yn yr Adroddiad AC.

- **AC Adneuo CDLl ar y Cyd (2015)** - Cyflwynwyd yr Adroddiad AC i ymgynghoriad cyhoeddus gyda'r Cynllun Adneuo am saith wythnos rhwng 15 Chwefror 2015 a'r 31 Mawrth 2015. O ganlyniad cafwyd nifer o 'Newidiadau ffocws' gan y Cyngor (gweler isod).

- **AC Newidiadau Ffocws (2016)** - yn dilyn ymgynghori ar y Cynllun Adneuo cynigiwyd cyfres o newidiadau penodol i'r CDLl ar y Cyd gan gymryd i ystyriaeth y sylwadau a dderbyniwyd. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Newidiadau Ffocws arfaethedig rhwng 25 Chwefror 2016 a'r 13 Ebrill 2016. Cynhaliwyd AC o'r Newidiadau Ffocws cyn cyflwyniad ffurfiol y CDLl ar y Cyd, a chyflwynwyd hwn i Lywodraeth Cymru. Ystyriodd Adroddiad Adendwm Cynaliadwyedd Gorffennaf (2016) newidiadau arfaethedig i'r CDLl ar y Cyd ar ôl ystyried ymatebion i'r Newidiadau ffocws yn ogystal â rhagor o waith mewn perthynas ag opsiynau safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, datblygiad ynni adnewyddadwy, a materion a godwyd gan yr Arolygydd cyn y Sesiynau Gwrandawiad (cyfeirnod dogfen DA.021 Llyfrgell yr Archwiliad).

- **AC o Newidiadau Materion sy'n Codi (2017)** - nodwyd fod newidiadau arfaethedig pellach mewn ymateb i'r camau a gytunwyd yn ystod Sesiynau'r Gwrandawiad a gynhaliwyd fel rhan o'r broses Archwilio. Roedd y Newidiadau Materion sy'n Codi (NMC) yma yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 26 Ionawr 2017 a'r 9 Mawrth 2017. Roedd y NMC yma yn destun i sgrinio AC a adroddwyd mewn Adroddiad Adendwm (cyfeirnod dogfen DA.041 yn y Llyfrgell Archwilio).

**Sut y rhoddwyd cyfrif am ganlyniadau ymgynghoriadau trawsffiniol**

34. Ni wnaeth y broses AC ddangos fod CDLl ar y Cyd Gwynedd a Môn yn debygol o gael effeithiau arwyddocaol ar amgylchedd aelod-wladwriaeth o'r GE. O'r herwydd, ni chynhaliwyd ymgynghoriad trawsffiniol dan Reoliad 14 o Reoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.

35. Ystyriodd ARhC y CDLl ar y Cyd effeithiau y Cynllun y tu hwnt i ffin weinyddol Gwynedd ac Ynys Môn o ran yr effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd o bwysigrwydd cadwraeth natur. Daethpwyd i'r casgliad gyda mesurau lleddfu yn cael eu ymgorffori yn y Cynllun, ni fyddai gweithredu'r CDLl yn golygu effaith arwyddocaol tebygol ar unrhyw safle Ewropeaidd un ai yn unigol neu mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill.

**Y rhesymau dros ddewis y cynllun neu'r rhaglen a fabwysiadwyd, yng ngoleuni unrhyw dewisiadau rhesymol eraill**

36. Ystyriwyd ystod o opsiynau fel rhan o'r broses paratoi CDLl ar y cyd. Roedd y rhain yn cynnwys opsiynau twf strategol, opsiynau gofodol, polisiau cynllun a dynodiadau datblygu. Cafodd y rhain eu profi yn erbyn Fframwaith AC. Ystyriwyd pum opsiwn gofodol a phedwar opsiwn twf mewn cynigion cyn-adneuo (oedd yn ymgorffori'r Hoff Strategaeth) ac yn amodol i AC. Er mwyn cyflawni gweledigaeth ac amcanion y Cynllun, dewisodd y Cyngor i weithredu dosbarthiad cymesur y datblygiad drwy gydol ardal y cynllun ac mewn opsiwn twf amgen/lefel hybrid (opsiwn twf canolig). Darperir mwy o fanylion ar ystyriaethau yr AC ym Mhennod 4 o'r Adroddiad AC Terfynol.

37. O safbwynt dynodiadau datblygu amgen, yn unol â'r fethodoleg Safle Posib, cynhaliwyd ymarfer hidlo tri cham i asesu addaswydd y safleoedd a gyflwynwyd. Roedd Cam 1 yn golygu hidlo cychwynnol y safleoedd gyda'r rhai a ystyriwyd yn anaddas neu'n afrealistig yn cael eu hepgor, roedd cam 2 yn golygu asesiad safle manwl (yn cynnwys asesiad yn erbyn amcanion AC/AAS/ARhC ac roedd cam 3 yn golygu asesu safleoedd yn erbyn strategaethau ac arfarniadau eraill. Cymharwyd rhinweddau perthnasol yr amryfal safleoedd ac fe ymgorfforwyd y safleoedd mwyaf priodol yn y Cynllun fel dynodiadau datblygu.

**Y mesurau a gymerir i fonitro unrhyw effeithau amgylcheddol arwyddocaol yn sgil gweithredu'r Cynllun.**

38. Mae monitro yn elfen bwysig i sicrhau fod polisiau'r Cynllun yn cael eu gweithredu yn effeithiol. Mae'r Rheoliadau AAS angen i fesurau gael eu cymryd a'u sefydlu i fonitro effeithiau amgylcheddol sylweddol gweithrediad y CDLl ar y Cyd (Rheol 17).

39. Mae Pennod 7 o'r CDLl ar y Cyd mabwysiedig yn nodi'r Fframwaith Monitro sy'n darparu'r sail i asesu effeithiolrwydd fframwaith polisi y CDLl ar y Cyd. Mae Pennod 7 o'r Adroddiad AC yn awgrymu fframwaith monitro ar gyfer AC y CDLl ar y Cyd. Mae ymateb y Cynghorau i Bwynt Gweithredu S16/43 yn egluro'r berthynas rhwng Fframwaith Monitro'r Cynllun, yr AC a'r ARhC (gweler dogfennau sy'n ymwneud â Sesiwn Gwrandawiad 16 yn adran Dogfennau Archwilio Llyfrgell yr Archwiliad).

40. Mae'r Ddeddf Cynllunio yn gofyn fod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cynhyrchu Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB) i ddangos sut mae'r polisïau a chynigion eu CDLl yn perfformio. Yr AMB yw'r prif fecanwaith i adolygu perthnasedd a llwyddiant yn CDLl ar y Cyd ac i adnabod unrhyw newidiadau angenrheidiol. Mae'r AMR yn cynnwys ystod o ddangosyddion mesuradwy y gellir asesu perfformiad polisiau'r Cynllun yn eu herbyn. Mae cryn orgyffwrdd rhwng fframwaith monitro'r Cynllun a'r monitro AC a awgrymwyd. Felly, ble fo'n briodol yn yr AMB bydd bob un o amcanion yr AC yn cael eu hasesu yn erbyn dangosyddion monitro'r Cynllun sy'n berthnasol i'r amcanion cynaliadwyedd.

41. Mae canllaw y Llywodraeth ar AC/AAS yn cynghori y dylid defnyddio trefniadau monitro sy'n bodoli ble fo'n bosib, i osgoi dyblygu. Mae'r Llywodraeth yn gofyn fod awdurdodau cynllunio lleol yn llunio Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB), ac fe ystyrir fod Adroddiad Monitro'r Cyngor (a gyhoeddir yn flynyddol) yn ddigonol i sicrhau bod monitro priodol yn digwydd i'r AC.

**Gwybodaeth bellach**

Os ydych angen rhagor o wybodaeth neu bod gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd:

*Ebost*: polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru

*Rhif Ffôn:* 01766 771000 (gofynnwch i gael siarad gyda Swyddog yn yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd)

*Post:* Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Llawr Cyntaf, Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor, Ffordd Gwynedd, Bangor, Gwynedd LL57 1DT